*This document is available in English* **Eitem Agenda 17**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1, ac fe'i paratowyd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Sicrhau Llywdoraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (2016) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Solace. Mae'r blaenraglen waith ar gyfer 2025/26 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft.

4 Bydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r datganiadau ariannol statudol a gynhyrchir ar gyfer 2024/25. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

## ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio ystyried y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 yn eu cyfarfod ar 16 Mehefin 2025. Penderfynodd yr Aelodau: gytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2024/25; nodi bod yr Datganiad Llywodraethiant Drafft wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn y dyddiad cau ar 31 Mai; ac awdurdodi'r cyflwyniad hwnnw'n ôl-weithredol.

## ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol, a:**
**ii) Chytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2025/26**

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11, rhaid i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethiant newydd, sef Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethiant sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

12 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaenraglen waith 25/26 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol |
| Cyllideb | Amh. |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |